| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 0 |

# TGAU

3000N30-1

Z22-3000N30-1

**DYDD IAU, 9 MEHEFIN 2022 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

## Uned 3
## Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol

1 awr 30 munud

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A (Darllen)** | **30** | |
| **Adran B (Ysgrifennu)** | **20** | |
| **Cyfanswm** | **50** | |

3000N301 01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B ar gyfer y dasg ysgrifennu.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.

Mae tudalen ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

Adran A – tua 10 munud yn darllen
– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau

Adran B – tua 5 munud yn cynllunio
– tua 25 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 20 marc

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

JUN223000N30101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

VP*(S22-3000N30-1)

Arholwr yn unig

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Mae 6 darn darllen ar y thema ‘Gwres’ yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân.
Darllenwch **bob** un o’r darnau’n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy’n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Rhybudd am Dywydd Poeth**

**A1.** Pa **ddau** beth mae’r Swyddfa Dywydd yn ein cynghori ni i’w gwneud yn ystod tywydd poeth? [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**A2.** Ble bydd hi boethaf ddydd Mercher? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Caerdydd ☐

Caeredin ☐

Llundain ☐

Birmingham ☐

**Darn Darllen 2**
**7 ffordd o gael gwell cwsg yn y tywydd poeth**

**A3.** Mae pedwar o’r gosodiadau isod yn gywir wrth drafod ffyrdd o gysgu’n well pan mae’r tywydd yn boeth. Mae un ateb cywir wedi’i roi i chi’n barod.
Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â’r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Mae hi’n boethach yn y llofft nag ydy hi lawr y grisiau. | ✓ |
| Mae rhoi eich dwylo o dan dap dŵr poeth yn oeri’r gwaed yn eich gwythiennau. | |
| Mae chwysu yn oeri tymheredd y corff. | |
| Mae diffodd teledu yn y plwg yn cael effaith ar dymheredd ystafell. | |
| Mae ymolchi mewn dŵr oer peth cyntaf yn y bore yn eich helpu i gysgu yn y nos. | |
| Mae cysgu drws nesaf i botel o ddŵr wedi rhewi yn eich cadw’n oer drwy’r nos. | |
| Mae rhoi’r dillad gwely yn yr oergell am ychydig yn gwneud cysgu’n dasg haws. | |
| Mae yfed diod boeth yn gostwng tymheredd y corff yn syth. | |


© WJEC CBAC Cyf.
(3000N30-1)

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 3**
**Cŵn Poeth Mewn Ceir**

**A4.** Esboniwch pam mae'r awdur wedi dewis y teitl "Cŵn Poeth Mewn Ceir". Ydy hwn yn deitl addas yng nghyd-destun y blog? [3]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

**A5.** Esboniwch pa symptomau mae cŵn yn eu dangos wrth ddatblygu strôc gwres. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

3000N301
03



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 4**
**O na fyddai'n haf o hyd?**

**A6.** Pa ffaith sy'n wir am ba rif? Rhowch linellau clir a thaclus i gysylltu'r ffaith gyda'r rhif cywir. Mae un wedi'i gysylltu eisoes. [2]

| | |
|---|---|
| 70 | Nifer y dyddiau na chafodd rhai ardaloedd ym Mhrydain law yn 1976 |
| 23 | Gwerth y cynnyrch bwyd a ddifethwyd mewn punnoedd yn haf 1976 |
| 45 | Tymheredd uchaf erioed ym Mhorthmadog mewn graddau selsiws |
| 32 | Nifer y cwmnïau y bu'n rhaid iddynt leihau eu defnydd o ddŵr yn sylweddol yn 1976 |
| 500,000,000 | Nifer mewn biliynau o bryfed oddi ar arfordir de a dwyrain Lloegr yn ystod haf 1976 |

(32 → Tymheredd uchaf erioed ym Mhorthmadog mewn graddau selsiws)


© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**Darnau Darllen 3 a 4**
**Cŵn Poeth Mewn Ceir**
**O na fyddai'n haf o hyd?**

**A7.** Mae gwres a chyfnod o dywydd poeth yn gallu achosi llawer o broblemau.

**Cyfunwch a chrynhowch wybodaeth** o'r ddau ddarn darllen i ddangos

- pa broblemau sy'n cael eu hachosi gan wres
- sut gallwn ni helpu mewn rhai achosion. [6]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

3000N301
05

Arholwr
yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 5**
**Gwisgo sgert i'r ysgol**

**A8.** Pa **un** o'r gosodiadau canlynol sy'n gywir?
Rhowch ✓ yn un o'r blychau. [1]

| | |
|---|---|
| Mae Pennaeth Ysgol Gyfun Abersaint yn trin bechgyn a merched yn gyfartal. | |
| Mae Pennaeth Ysgol y Cwm yn fodlon gwrando ar y disgyblion. | |
| Roedd rhai bechgyn wedi benthyg sgertiau gan eu mamau. | |
| Cyn gwneud newidiadau i wisg ysgol rhaid trafod gyda'r Cyngor Sir, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol. | |

**A9.** Yn eich barn chi, beth yw neges yr awdur yn y darn hwn? Defnyddiwch dystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich ateb. [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**A10.** Sut mae'r awdur yn llwyddo i gyflwyno'r neges yn y darn? [6]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 6**
**Canllawiau statudol newydd ynglŷn â gwisg ysgol yng Nghymru**

**A11.** Pam mae'r gair "rhaid" wedi'i dduo/mewn print trwm yn y dyfyniad isod? [1]

> Mae Llywodraeth Cymru eisiau cyflwyno 'Canllawiau Statudol' newydd ar bolisïau gwisg ysgol ac ymddangosiad. Oherwydd y bydd y canllawiau newydd yn rhai 'statudol', bydd ganddynt sail gyfreithiol, ac felly bydd yn **rhaid** i ysgolion eu dilyn pan fyddant yn cyflwyno gwisg ysgol, neu'n bwriadu newid gwisg ysgol.

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**A12.** Enwch **ddwy** ffordd mae'r llywodraeth am geisio gwella profiad teuluoedd o wisg ysgol yn y dyfodol. [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B (Ysgrifennu): 20 marc**

Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau **ysgrifennu.**

Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.

**Naill ai,**

(a) Ysgrifennwch lythyr at bennaeth eich ysgol yn rhoi eich barn am y wisg ysgol. Rhowch resymau dros eich barn.

**Neu**

(b) O na fyddai'n haf o hyd!
Lluniwch dudalen gwefan yn ceisio denu ymwelwyr i'ch ardal chi yn ystod gwyliau'r haf.

Mae 10 marc am gyfathrebu a 10 marc am ysgrifennu'n gywir. [20]

- Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.
- Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.
- Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn hwn os bydd angen.
- Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.

CYNLLUN:



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

TEITL:

Arholwr
yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig


© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

cbac wjec

# TGAU

3000N30-1A

Z22-3000N30-1A

**DYDD IAU, 9 MEHEFIN 2022 – BORE**

## CYMRAEG IAITH
**Uned 3**
**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol**

1 awr 30 munud

## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N301A
01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.


**DARN DARLLEN 1**

# S4C Tywydd

## Rhybudd Am Dywydd Poeth!

Mae’r Swyddfa Dywydd yn rhybuddio mai yfory fydd diwrnod poethaf y flwyddyn.


Cofiwch wisgo eli haul ac yfed digon o ddŵr.



DARN DARLLEN 2

# 7 ffordd o gael gwell cwsg yn y tywydd poeth





Ewch am gawod neu fath oer cyn mynd i'r gwely.



Rhowch eich garddyrnau o dan dap dŵr oer er mwyn oeri'r gwaed yn eich gwythiennau.




Yfwch ddiod boeth. Mae hyn yn codi gwres y corff ac yn achosi i chi chwysu mwy – mae hyn yn oeri'r corff yn y pendraw.



Diffoddwch eich holl declynnau'n llwyr. Mae teclynnau mawr fel teledu a gemau consol yn allyrru llawer o wres.



Oerwch eich dillad gwely. Os rhowch chi eich gobennydd / cwrlid yn yr oergell neu'r rhewgell am 10 munud byddwch yn fwy cyfforddus yn eich gwely.



Paratowch botel o ddŵr wedi rhewi a'i gosod o flaen gwyntyll er mwyn cael awel oer yn ystod y nos.



Cysgwch yn y lolfa. Mae aer cynnes yn codi felly mae hi'n boethach yn eich llofft nag ydy hi lawr y grisiau.

3000N301A
03



Trowch y dudalen.

**DARN DARLLEN 3**

# CŴN POETH MEWN CEIR




Diwrnod braf o haf! Diwrnod perffaith ar gyfer picnic! Does dim ond angen pacio, rhoi'r ci yn y car ac yna stopio'n sydyn yn yr archfarchnad i brynu danteithion.

## MAE GADAEL EICH ANIFAIL ANWES MEWN CAR POETH AM 'DDIM OND 5 MUNUD' YN BERYGLUS

Efallai y bydd ciw hir yn y siop, efallai y byddwch yn sylweddoli'n sydyn bod angen 'un peth arall' arnoch chi, efallai y byddwch chi'n digwydd taro ar hen ffrind. Yn sydyn iawn mae 'dim ond 5 munud' wedi troi'n 10, 15 neu 30 munud. Yn yr archfarchnad sydd wedi'i haerdymheru, efallai na fyddwch hyd yn oed yn sylwi ar yr amser, ond i gi mewn car poeth, gall 5 munud deimlo fel tragwyddoldeb.

## GALL STRÔC GWRES DDIGWYDD MEWN 10 MUNUD NEU LAI

Yn ddiweddar, gwnaeth yr RSPCA arbrawf – gan ddefnyddio car gyda'r ffenestri led y pen ar agor – i weld a oedd hi'n bosib atal y car rhag mynd yn beryglus o boeth. Hyd yn oed ar ddiwrnod gyda rhywfaint o awel, cynyddodd y tymheredd fwy na 10 gradd mewn dim ond 10 munud. Nid yw agor y ffenestri neu adael dŵr yn y car yn ddigon i atal strôc gwres.



## YN WAHANOL I BOBL, NID YW CŴN YN GALLU CHWYSU

Nid yw anadlu'n gyflym yn ffordd effeithiol i gi gael gwared ar wres o'i gorff. Bydd yn dechrau glafoerio neu'n chwydu a gall hyn arwain at anhawster cerdded, llewygu a ffitiau – hyd yn oed marwolaeth yn y pen draw.

## GALLWCH ATAL STRÔC GWRES

Os ydych yn bwriadu aros yn rhywle, gadewch eich ci gartref neu dewch â rhywun arall gyda chi i aros yn y cysgod gyda'r ci os byddwch yn siopa. Os gwelwch chi gi wedi ei gau mewn car poeth yr haf hwn, ffoniwch yr RSPCA neu'r heddlu ar unwaith.

**www.blogffrindpennafdyn.cymru**

**DARN DARLLEN 4**

**O na fyddai'n haf o hyd?**

29 Mehefin 2018

**Gyda'r tymheredd ym Mhorthmadog yn cyrraedd record o 32°C ddydd Iau, mae llawer wedi bod yn melltithio'r tywydd poeth.**



Ond os ydych chi'n meddwl ei bod hi'n boeth nawr, dydy hyn yn ddim i'w gymharu â haf 1976. Roedd gwaharddiad ar ddefnyddio pibau dŵr yn yr ardd oherwydd gostyngodd lefelau nifer o gronfeydd dŵr yn sylweddol. Dyma'r cyfnod hiraf o sychder ers 250 mlynedd, gyda rhai ardaloedd ddim yn gweld glaw am 45 diwrnod. Arweiniodd y cyfyngiadau dŵr at orfodi rhai cwmnïau i leihau eu horiau gwaith.

**Dogni dŵr**
Rhoddwyd pwerau i awdurdodau lleol ddiffodd y cyflenwad dŵr am gyfnodau yn ystod y dydd. Mewn nifer o ardaloedd, yr unig ffordd o gael dŵr oedd drwy ddefnyddio tapiau cyhoeddus yn y stryd. Un o'r ardaloedd a gafodd ei heffeithio fwyaf oedd de-ddwyrain Cymru, lle cafodd dros 70 o gwmnïau orchymyn i haneru eu defnydd o ddŵr gan gynnwys pyllau glo a gweithfeydd dur. Y nod oedd arbed digon o ddŵr ar gyfer gwasanaethau allweddol fel y gwasanaeth tân ac ysbytai.



**Sgil-effeithiau'r tywydd poeth**
- Pla o'r fuwch goch gota wedi ymosod ar bentrefi, trefi a dinasoedd – dros 23 biliwn ohonynt wedi ymgasglu ar arfordir deheuol a dwyreiniol Lloegr yn ystod y tywydd sych
- Llawer o goed ffawydd (a oedd yn sensitif i sychder) wedi marw
- Pedair o afonydd dinas Sheffield wedi sychu'n llwyr
- Gwerth tua £500m o gnydau wedi'u difetha yn arwain at brisiau bwyd yn codi
- Tanau eithin a thanau mynydd difrifol yn Dorset yn ne Lloegr

**Dim ha' bach Mihangel**
Er mor ddifrifol oedd y sychder mawr yn ystod Mehefin, Gorffennaf ac Awst 1976, erbyn mis Medi daeth y glaw. Llawer o law. Cyn hir, roedd y sychder mawr yn atgof pell a phobl yn cwyno eto am y glaw!

**DARN DARLLEN 5**

## Gwisgo sgert i'r ysgol

Roeddwn i wedi cael llond bol – wedi cael digon ar chwysu chwartiau. Roedd hi'n iawn ar y merched – roedden nhw'n cael gwisgo sgertiau a chael digon o awyr iach i'w coesau. Ers wythnos a mwy ym mis Mehefin 2018 roedd fy nghoesau i wedi bod yn glynu'n anghyfforddus wrth ddefnydd fy nhrowsus llwyd. Diolch byth am grysau llewys byr.

Wrth i'r tymheredd fynd heibio 30°C, roedd criw ohonom ni'r bechgyn yn Ysgol y Cwm wedi gofyn i'n hathrawon am ganiatâd i gyfnewid ein trowsusau hir am siorts taclus. Ond gwrthodwyd ein cais gan nad oedd siorts yn rhan o bolisi gwisg yr ysgol. Wrth ddadlau bod y merched yn cael eu trin yn wahanol, dywedodd un o'r athrawon – gan dynnu coes, siŵr o fod – y gallen ni wisgo sgertiau hefyd pe baen ni'n dymuno. Felly dyna pam roedd o leiaf 30 ohonom wedi dewis gwisgo sgert un bore Iau.

Roedd y diwrnodau poethaf ers 1976 wedi arwain at chwyldro yn yr ysgol. Ac roeddwn i ar flaen y gad. Roedd rhai ohonom wedi benthyca sgert gan ein cariadon, eraill gan ein chwiorydd. Roedd ambell un wedi mynd i hwyl go iawn ac wedi siafio'i goesau! Roedd yn deimlad braf cael mwynhau'r awel oer. Cael profi rhyddid.

Ar ôl i'r wasg glywed am y digwyddiad, cyhoeddodd y Pennaeth ei bod yn barod i drafod. Gan nad oedd siorts yn rhan o'r wisg ysgol i fechgyn ar y pryd, byddai angen ymgynghori â'r Cyngor Ysgol, y rhieni a'r llywodraethwyr cyn gwneud newidiadau parhaol. Ond, am y tro, roedd hi wedi caniatáu i ni wisgo ein siorts ymarfer corff bob dydd nes byddai'r tywydd yn oeri. Buddugoliaeth!

Ac aeth ein chwyldro ni ar led. Yn ystod y dyddiau dilynol, clywais am hanes bachgen ysgol o Geredigion, a wisgodd sgert i'r dosbarth ar ôl cael ei anfon adre am wisgo siorts mewn tywydd poeth. Roedd y bachgen o Ysgol Gyfun Abersaint yn dadlau bod gwisgo trowsus mewn tywydd poeth yn "hynod anghyfforddus". Ac rwy'n cytuno'n llwyr ag e. Pan ddaeth e i'r ysgol mewn sgert, dywedwyd wrtho na fyddai'n cael ei gwisgo am mai bachgen oedd e! Rhywiaethol ta be?!

Ond eleni, mae'r wisg ysgol yma yn Ysgol y Cwm wedi newid. Bellach, mae gennym ein siorts swyddogol ein hunain ar gyfer tymor yr haf – rhai sy'n addas ar gyfer bechgyn a merched. Ac mae ein hysgol ni, o'r diwedd, yn dechrau symud gyda'r oes.



**DARN DARLLEN 6**

Canolfan Gyfreithiol y Plant
Children's Legal Centre

Ionawr 2019

**Canllawiau statudol newydd ynglŷn â gwisg ysgol yng Nghymru**

Yr oedd gwisg ysgol yn y newyddion gryn dipyn yr haf diwethaf yn ystod y cyfnod hir o dywydd poeth. Yr oedd rhai merched yn cwyno eu bod yn gorfod dal ati i wisgo 'teits' a rhai bechgyn yn cwyno nad oedden nhw'n cael gwisgo trowsusau byr. Mewn rhai mannau, aeth bechgyn i'r ysgol mewn sgertiau er mwyn pwysleisio'r mater!

Dywed rhai pobl bod gwisg ysgol yn rhy ddrud, neu ei bod yn anodd prynu'r hyn sy'n ofynnol gan yr ysgol. Mewn rhai ysgolion mae'n rhaid i ferched wisgo sgertiau a rhaid i fechgyn wisgo trowsusau – a gallai hyn fod yn enghraifft o wahaniaethu ar sail rhyw neu wahaniaethu ar sail hunaniaeth rhywedd.

**Beth sy'n mynd i newid?**

Mae Llywodraeth Cymru eisiau cyflwyno 'Canllawiau Statudol' newydd ar bolisïau gwisg ysgol ac ymddangosiad. Oherwydd y bydd y canllawiau newydd yn rhai 'statudol', bydd ganddynt sail gyfreithiol, ac felly bydd yn **rhaid** i ysgolion eu dilyn pan fyddant yn cyflwyno gwisg ysgol, neu'n bwriadu newid gwisg ysgol.

Mae'r canllawiau yn sicrhau bod ysgolion yn ystyried deddfau sy'n atal gwahaniaethu. Mae'r canllawiau newydd hefyd yn atgoffa ysgolion y dylent drafod â'r Cyngor Ysgol ynghylch y wisg ysgol ac ymddangosiad.

Ond mae rhai newidiadau pwysig, a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid i ysgolion sicrhau'r canlynol:

- bod y wisg ysgol yn **fforddiadwy**, yn ogystal ag ystyried **cost** y wisg ysgol, a pha mor hawdd fydd hi i ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr brynu eitemau o'r wisg

- **ni ddylai**'r wisg ysgol y bwriedir ei chael **gynnwys gwahanol eitemau o ddillad a bennir ar sail rhyw/rhywedd**

- bod yna **ddull gweithredu synhwyrol a hyblyg o ran gwisg ysgol** a all ystyried amodau **tywydd**

Cyn llunio'r canllawiau newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi agor 'cyfnod ymgynghori' fel y gall unrhyw un yng Nghymru sy'n dymuno gwneud hynny wneud sylwadau ar beth ddylai fod yn y canllawiau newydd.

**TGAU**

3000N30-1B

Z22-3000N30-1B

**DYDD IAU, 9 MEHEFIN 2022 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

**Uned 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

1 awr 30 munud

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau.**
**Clawr blaen y papur arholiad yn unig yw'r daflen hon.**
***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***
***English instructions overleaf.***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad 3000N30-1 bydd angen Deunydd Darllen arnoch chi.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben tudalen 1.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B ar gyfer y dasg ysgrifennu.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd priodol yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

Adran A – tua 10 munud yn darllen
– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau
Adran B – tua 5 munud yn cynllunio
– tua 25 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc
Adran B (Ysgrifennu): 20 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

GCSE

3000N30-1B

Z22-3000N30-1B

**THURSDAY, 9 JUNE 2022 – MORNING**

# *WELSH LANGUAGE*
***Unit 3***
***Reading and Writing: Argumentation, Instructional and Persuasion***

*1 hour 30 minutes*

***For the attention of the Examinations Officer.***
***This is the front cover of the examination paper only.***

***ADDITIONAL MATERIALS***

*As well as examination paper 3000N30-1 you will need Reading Material.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen. Do not use gel pen or correction fluid.*
*Write your name, centre number and candidate number in the spaces at the top of page 1.*
*Answer **all** questions in Section A.*
*Choose **one** of the topics in Section B for the writing task.*
*Write your answers in the spaces provided in this booklet.*
*There are additional pages at the end of this booklet if you require more space for your answers. You should make sure that you number the question correctly.*
*You are advised to spend your time by following these guidelines:*

*Section A – about 10 minutes reading*
*– about 50 minutes answering the questions*
*Section B – about 5 minutes planning*
*– about 25 minutes writing*

*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*Section A (Reading): 30 marks*
*Section B (Writing): 20 marks*

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*

© WJEC CBAC Ltd